

ASTUDIAETH ACHOS 1

Hwb Cymorth Cynnar (Sir y Fflint): Cydweithio i gefnogi teuluoedd agored i niwed

Cynnwys

1. Crynodeb o'r Hwb Cymorth Cynnar
2. Sut y dechreuodd: y prif ysgogwyr
3. Nodweddion allweddol
4. Beth weithiodd yn dda?
5. Rôl y Cydlynnydd Trydydd Sector
6. Beth a ddysgwyd?
7. Heriau
8. Casgliad

Crynodeb o'r Hwb Cymorth Cynnar

Edrycha'r astudiaeth achos fanwl hon ar ddatblygiad yr Hwb Cymorth Cynnar, ymateb amlasiantaeth integredig, yn unol â Teuluoedd yn Gyntaf, i roi cymorth i deuluoedd lle mae 2 neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod wedi bod neu pan fo digwyddiad o gam-drin domestig, esgeuluso neu drafferthion cyffredinol wedi bod, ond nad yw'r teulu wedi cyrraedd trothwy ymyrraeth statudol neu heb fod angen atgyfeiriad diogelu. Mae'r Hwb yn cydleoli Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Cyfiawnder Ieuencid, Addysg, y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymorth yn y Blynnyddoedd Cynnar, Sir y Fflint yn Cysylltu, Tîm o Amgylch y Teulu a'r trydydd sector, gyda Heddlu Gogledd Cymru yn bartner allweddol. Fe'i lanswyd fis Hydref 2017 i roi cymorth i osgoi argyfwng a chwalfa deuluol. Un o'r prif nodweddion yw'r Cydlynnydd Trydydd Sector (Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint), sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt; gan weithio gyda'r teulu i edrych ar ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth yn y trydydd sector a'r gymuned. Mae'r Hwb yn ymgorffori un o brif nodweddion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o ran atal ac yn gweithio at atgyfeiriadau ymyrraeth gynnar, pan fo Gwasanaeth Plant, er enghraifft, yn pennu nad oes angen camau pellach.

Ffeithiau allweddol:

- Gweithiodd i ddechrau gyda 29 o deuluoedd ag anghenion cymhleth.
- Yn flaenorol nid oedd dros 80% o atgyfeiriadau o Heddlu Gogledd Cymru a oedd yn ymwneud â digwyddiad o gam-drin domestig yn cyrraedd y trothwy ac ni chymerwyd camau pellach.
- Roedd llawer o deuluoedd yn hysbys, *'ond nid mewn ffordd sy'n delio â'r ddynameg sylfaenol sy'n achosi'r mathau o broblemau o fewn teuluoedd'* nac wedi'i gydlynu'n briodol.

Sut y dechreuodd: y prif ysgogwyr

2.

- **Angen gwneud pethau mewn ffordd wahanol a gwell:**

Ysgogiad allweddol oedd canfod ffyrdd newydd a mwy arloesol o gefnogi teuluoedd agored i niwed a oedd yn ailadrodd patrymau argyfwng ac nad oedd yn cyrraedd trothwy cymorth gwasanaethau cymdeithasol, ond lle roedd sefyllfa deuluol yn debygol o waethygu a/neu ymddieithriad yn digwydd. Cyni ariannol a'r angen i rannu adnoddau yn ffactor mawr i ddiwallu angen.

- **Meithrin perthynas:**

Egwyddor ganolog oedd yr angen i feithrin perthynas â theuluoedd â lefelau uchel o angen; ymgysylltu'n gynnar â nhw drwy weithredu'n rhagweithiol ac ar y cyd.

- **Ymateb yn gynnar:**

Roedd angen rhannu gwybodaeth a chysoni mudiadau i gydweithio mewn ffordd fwy ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar.

Nodweddion Allweddol

3.

- Bod â chefnogwr brwd ar lefel uwch ac arweinyddiaeth gref; eisiau edrych ar ffyrdd eraill o gefnogi teuluoedd, drwy newid arferion a gwella ymateb a darpariaeth gwasanaethau.
- Tîmau amlasiantaeth a thîmau wedi'u cydleoli, gyda'r trydydd sector yn bartneriaid allweddol i ysgogi newid.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid.
- Unigolion a mudiadau amrywiol yn rhan o'r gwaith gyda'r un bwriad i sicrhau canlyniadau da i deuluoedd.
- Cysondeb yn y dull gweithredu ac ati; gan gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth gyda Chydlynnydd Trydydd Sector yn bwynt cyswllt sengl yn cynnig atebion cymunedol i gefnogi teuluoedd.
- Rhannu gwybodaeth yn nodwedd bwysig a llwyddiannus yn yr Hwb.

Sefydlu'r Hwb: Roedd ffurfio'r Hwb a chydleoli timau megis Tîm o Amgylch y Teulu a Dechrau'n Deg er enghraifft yn uchafbwynt ac yn cael ei ystyried yn gyfrwng ar gyfer *'dull gweithredu blaengar, cyflymach a mwy dynamig'* wrth rannu a chasglu gwybodaeth ac ymateb yn fwy effeithiol. Serch hynny, tra mae'r mudiadau a'r timau sy'n rhan o'r gwaith wedi gallu rhannu gwybodaeth o fewn asiantaethau'r Hwb maent wedi bod yn gwneud hynny ar *'gyfraddau gwahanol neu gyflymder gwahanol'* oherwydd prosesau gwahanol i gasglu gwybodaeth.

Rhannu gwybodaeth: Ystyriwyd mai un o ganlyniadau mwyaf positif gwaith cychwynnol yr Hwb oedd y cytundeb i rannu gwybodaeth ynglŷn â thelueoedd. Sefydlwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn sefydlu prosesau caniatâd a chwmpas y rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, gan gynnwys â'r trydydd sector. Roedd dull cynhwysfawr i rannu gwybodaeth yn galluogi *'ymateb mwy meddylgar gan wasanaethau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach'*.

Y 'Cynnig': Ystyriwyd bod y ffordd yr oedd Heddlu Gogledd Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i arwyddbostio at wybodaeth, cyngor a chymorth (y Cydlynnydd Trydydd Sector yn bwynt cyswllt) yn ymyrryd yn llai, ddim yn fygythiol, yn fwy annibynnol ac y byddai'n osgoi *'gadael thelueoedd yn nhir neb, heb unrhyw fath o gymorth, neu agwedd os nad ydych yn derbyn y cynnig ni chewch chi ddim byd'*. Seiliwyd y cynnig ar fabwysiadu a gweithredu dull teulu cyfan, gan holi beth sy'n bwysig i'r teulu ac ystyried pa gymorth fyddai'n fuddiol drwy ddatblygu pecynnau cymorth wedi'u teilwra a'u personoli i'r teulu. Er enghraifft, ymyriadau rhianta 1:1, cyrsiau rhianta a mynediad at rwydweithiau rhianta ledled y sir. Prif nod y cynnig oedd gweithio tuag at gael gwared ag *'ymateb dim gweithredu'* yr oedd thelueoedd yn ei brofi yn fwy ffurfiol.

Ymgysylltu'n gynnar â'r gweithlu: Gweithiodd rhaglen o sesiynau briffio'r gweithlu yn dda, gyda thros 200 o bobl yn cymryd rhan a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u thelueoedd. Cafwyd cynrychiolaeth dda a chymysgedd amrywiol o ymarferwyr o sawl sector, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Nyrsys Ardal a Nyrsys Ysgol, Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaethau Ieuencid, ysgolion a mudiadau trydydd sector. Yn ogystal, aethpwyd ati i ymgysylltu'n benodol â rhai mudiadau a phobl, er enghraifft, penaethiaid ysgolion uwchradd.

'Yn y bôn roedd y rhain yn deulueoedd ag anghenion cymhleth, ac roedd yr anghenion hynny'n aml yn gwaethygu, roeddynt mewn cysylltiad â sawl gwasanaeth gwahanol mewn gwirionedd, ond doedd y cymorth ddim yno, doedd o ddim wedi'i gydlyn, doedd o ddim o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau da, roedd yna lawer o ddyblygu.'

Rôl Heddlu Gogledd Cymru:

- **Rhan ganolog:** Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn gefnogwr cynnar o'r cysyniad o ddatblygu hwb ymyrraeth gynnar. Roedd yr Uwch-arolygydd yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol â'r ymgynghorydd ac aeth ati i edrych ar fodolau ymyrraeth gynnar mewn llefydd eraill a helpodd i siapio'r Hwb a chanolbwyntio ar ganfod sawl *'drws i'w agor, ond ar yr un pryd osgoi llwybrau lluosog'* at wasanaethau, a fyddai'n gymhleth i'w reoli ac yn anodd i deulueoedd ei ddefnyddio. Roedd yn bwysig gwahaniaethu rhwng rôl yr Hwb a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a pha ddrws i'w agor a phryd.
- **Newid y diwylliant ymateb:** Teimlwyd ei bod yn bwysig *'cyfleu'r neges'*, a oedd yn anodd ar draws mudiad mor fawr a'r angen i fod yn fwy rhagweithiol o ran bod yn gefnogol i deulueoedd agored i niwed ac i ddiogelu pobl yn y gymuned, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfraddau datrys. O'r blaen, ychydig iawn o ymwybyddiaeth a oedd gan Swyddogion Heddlu rheng flaen o fodolaeth Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, y Cydlynnydd Trydydd Sector a mudiadau lleol eraill a allai gefnogi teulu. Mae Swyddogion Heddlu yn dechrau ystyried, yn ystod digwyddiad, yr angen i ddarparu cymorth cynnar a gwneud cynnig ac atgyfeiriad at yr Hwb, sy'n gweithio'n dda. Mae'r rheini sydd wedi'u recriwtio'n fwy diweddar yn fwy agored i ffyrdd newydd o feddwl ac wedi bod yn gofyn am wybodaeth gan yr Hwb *'gan fod arnynt eisiau sicrhau bod y cymorth priodol yn ei le'* ac eisiau gwneud y cysylltiadau cywir, er mwyn i'r teulu gael cymorth yn hytrach na chael eu gadael yn nhir neb ac achosion pellach o gam-drin domestig.

- **Arwyddbostio at y Cydlynnydd Trydydd Sector:** Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi chwarae rôl atgyfeirio hanfodol, mewn ymateb i achosion o gam-drin domestig ac wedi sefydlu perthynas bositif a chlòs â'r Cydlynnydd Trydydd Sector gan arwyddbostio teuluoedd gyda'u caniatâd i alluogi'r Cydlynnydd i ddechrau meithrin perthynas â'r teuluoedd, ennill eu hymddiriedaeth ac edrych ar ddatblygu pecyn cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y teulu cyfan.
- **Canlyniadau gwneud dim byd:** O'r blaen, byddai llawer o deuluoedd, yn dilyn ymweliad cysylltiedig â cham-drin domestig na chyrraeddodd y trothwy ymyrraeth, yn cael eu gadael heb lawer o gymorth ac roedd diffyg cydnabyddiaeth o'r ffaith nad oedd hyn yn ymateb i anghenion y teulu a theimlwyd *'nad ydym yn meddwl am ganlyniadau peidio â chefnogi teulu, mae rhai'n gweiddi allan am gymorth ac fel swyddog heddlu dwi wedi delio gyda galwadau, wedi mynd at deuluoedd, lle mae'r plentyn yn wyllt, yn gwrthod gwrando ar reolau a ffiniau, yn diflannu i'r nos ac yntau'n ddim ond 7/8 oed ac mae'r fam yn dweud "Dwi'n sgrechian ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud i fi dydach chi ddim yn ei daro felly dydach chi ddim yn cyrraedd y trothwy, ond dwi mond angen ychydig o help"; bellach gallwn ymateb a ffonio'r Hwb Cymorth Cynnar'.*

Rôl y Cydlynnydd Trydydd Sector o fewn yr Hwb

5.

Tra ystyriwyd modelau eraill ar draws ardaloedd awdurdodau lleol eraill wrth ddechrau datblygu'r Hwb, teimlwyd bod rôl y Swyddog Gwybodaeth yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, a oedd yn gweithio drwy'r Pwynt Cyswllt Sengl o fewn y Gwasanaeth Oedolion, yn fodel y gellid ei efelychu, gyda diddordeb yn yr hyn a oedd ar gael yn y trydydd sector a chael mynediad ato, a *'syfrdanwyd gan yr hyn sydd ar gael yn y trydydd sector.....ac agorwyd eu (asiantaethau statudol) llygaid i'r cymorth sy'n bodoli mewn gwirionedd'*. Elfen bwysig oedd y gydnabyddiaeth bod cyswllt wyneb yn wyneb â phobl, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gyswllt dros y ffôn, yn talu ar ei ganfed gan ei fod yn sicrhau sgysiau mwy ystyrlon â phobl ynglŷn â'u hanghenion ac yn arwain at atebion priodol a oedd yn ymwneud yn bennaf ag unigedd ac arwahanrwydd.

- **Agweddau gweithredol:** Nid oedd llwybrau atgyfeirio'r Pwynt Cyswllt Sengl yr un fath â'r rheini a ddisgwyliwyd ar gyfer yr Hwb a'r ffordd o ddelio gyda'r atgyfeiriadau hynny nad oedd modd ei hefelychu. Canolbwyntiodd yr Hwb ar ymateb amlasiantaeth oherwydd cyd-destunau gwahanol o ran cyflwyno'r atgyfeiriadau. Roedd yr achosion a atgyfeiriwyd at yr Hwb yn fwy cymhleth, ond yn gychwynnol ac yn bresennol roeddynt yn bennaf yn achosion ataliol eu natur. Roedd teuluoedd mewn argyfwng, eisoes yn hysbys ac roedd yna *'gylch o ddiwyddiadau'n ailadrodd'*.
- **Atgyfeiriadau:** Roedd 85% o atgyfeiriadau at y Cydlynnydd Trydydd Sector yn gysylltiedig â cham-drin domestig ac ni ddisgwyliwyd i atgyfeiriadau for mor uchel. Roedd atgyfeiriadau eraill fel arfer oherwydd dim camau pellach gan y Gwasanaethau Plant neu Amddiffyn Plant. Dim ond yn ddiweddar y teimlai'r Cydlynnydd Trydydd Sector fod yr Hwb yn dechrau derbyn atgyfeiriadau y byddai'n cael eu hystyried yn achos ymyrraeth gynnar. Teimlwyd bod hyn oherwydd yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhellach o rôl yr Hwb a pha fathau o atgyfeiriadau y byddai'r Hwb yn eu hystyried. Yn llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd teimlwyd nad oeddynt yn y cam cywir ar gyfer ymyrraeth trydydd sector, ond unwaith y darparwyd cymorth statudol byddai teuluoedd yn fwy agored i'r Cydlynnydd Trydydd Sector gael ei gynnwys a gweithio gyda nhw i edrych ar ba gymorth a gwasanaethau y gellid eu cynnig a'u sefydlu i'r teulu.
- **Caniatâd:** I ddechrau, roedd pryderon ynghylch y ffordd roedd teuluoedd yn rhoi caniatâd i gysylltu â nhw. Pan gysylltodd y Cydlynnydd Trydydd Sector â rhai teuluoedd, nid oeddynt yn ymwybodol o atgyfeiriad, a'r caniatâd ymhlyg neu awgrymedig hwn oedd yr arfer yn ddiodyn o ystyried bod plant dan sylw. Achosodd hyn sgwrs agoriadol anodd, gan roi'r teulu a'r Cydlynnydd dan anfantais. Heriodd y Cydlynnydd y prosesau i sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod y byddai'r Cydlynnydd yn cysylltu â nhw i gynnig cymorth yn hytrach na'i orfodi arnynt ac y gall teuluoedd ddewis peidio â'i dderbyn. Wrth gytuno ar brosesau gwybodaeth a chyfathrebu, roedd meithrin perthynas â'r Swyddog Heddlu cyswllt yn ganolog sy'n gofyn am ganiatâd gan y teulu i'r Cydlynnydd gysylltu â nhw.

'Mae angen canolbwyntio'n fwy, mewn rhai achosion o leiaf, ar ymgysylltu â theuluoedd, fel ffordd o ennyn eu hyder a'u parodrwydd i ymgysylltu â'r gwasanaeth yn hytrach na, os mynnwch, model mwy traddodiadol lle rydych yn aros i'r atgyfeiriad ddod i mewn.'

Y cysylltiad cyntaf:

Pwynt dysgu allweddol oedd pwysigrwydd y cysylltiad cyntaf â'r Hwb i deuluoedd ac ymateb Heddlu Gogledd Cymru ar ôl digwyddiad; gan gymryd camau dilynol gyda theuluoedd drwy arwyddbostio at gynnig o gymorth drwy'r Hwb. Roedd meithrin ymddiriedaeth yn elfen ganolog o gynnal cysylltiad a diddordeb y teulu ac, yn ei dro, i osgoi'r angen am ymyrraeth argyfwng neu atgyfeiriad diogelu ar gyfer rhai teuluoedd. Roedd ymddiriedaeth a chysylltiad â theuluoedd yn thema bwysig. Roedd llawer o deuluoedd wedi cael profiad gwael neu anfodddhaol yn eu cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol; gan wrthwynebu eu cynnwys ac yn *'ofnus o ymyrraeth statudol'*. Tra nad yw'r cysyniad o bwynt cyswllt sengl yn newydd, mae teuluoedd wedi croesawu cysylltiad â rhywun a welir fel person annibynnol, a all weithio un wrth un i ddatblygu pecyn cymorth wedi'i deilwra, gan eu helpu y tu hwnt i'r cysylltiad cyntaf. Mae'r Cydlynnydd Trydydd Sector wedi bod yn chwarae rôl hanfodol yn helpu teuluoedd i ganfod cymorth a chynnal sefydlogrwydd drwy ymateb rhagweithiol cyflymach.

Deall anghenion teuluoedd: Roedd llawer o deuluoedd, yr ymgysylltwyd â nhw yn gychwynnol, wedi bod yn *'hercian o'r naill argyfwng i'r llall'*, gyda sawl achos o gam-drin domestig. Er bod rhai gwasanaethau wedi bod mewn cysylltiad â rhai o'r teuluoedd, nid oedd hynny mewn ffordd a oedd yn mynd i'r afael â'r ddynmeg sylfaenol a oedd yn achosi'r problemau cymhleth a oedd yn codi o fewn teuluoedd. Mewn llawer o achosion ymatebwyd i broblem benodol, er enghraifft, angen i ddiogelu, ond heb gydnabod bod angen i wasanaeth arall ymyrryd hefyd. Cydnabu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bwysigrwydd yr ymchwil leol ar deuluoedd lleol a gynhaliwyd gan yr ymgynghorydd a'r angen i wella canlyniadau llesiant teuluoedd agored i niwed ledled y sir. Roedd deall anghenion teuluoedd ac osgoi galw ailadroddus drwy sianelu teuluoedd i'r Hwb yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Lleol i atal a darparu ymyrraeth gynnar i deuluoedd ag anghenion cymhleth. Roedd dull integredig ar draws asiantaethau, gan gynnwys y trydydd sector, yn hanfodol gan arwain at ailgomisiynu gwasanaethau priodol a ariannwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf a phroses ddysgu i fudiadau; gan ddeall yr angen i weithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth effeithiol i deuluoedd agored i niwed yn y sir.

Dod â rhanddeiliaid at ei gilydd: Roedd y cysylltiad cynnar â rhai asiantaethau yn anodd. Roedd hwyluso gweithdy yn gam cychwynnol pwysig i ennyn cefnogaeth a hyrwyddo'r angen i drawsnewid gwasanaethau i deuluoedd agored i niwed. Roedd dod â rhanddeiliaid gwahanol at ei gilydd yn ddefnyddiol i rannu profiadau a gwybodaeth. Rhoddodd gyfle i gytuno ar yr egwyddorion dylunio, edrych ar yr hyn yr oedd yr ymchwil yn ei ddweud a nodi elfennau o arfer da o ardaloedd eraill.

Rhannu gwybodaeth: Teimlwyd ei bod yn bwysig bod yn glir o ran pa wybodaeth y gellid ei rhannu rhwng asiantaethau, gan gynnwys â'r trydydd sector a sut y gellid cael caniatâd pan nad oedd teuluoedd yn hapus i gytuno. Y wers allweddol oedd ei bod yn bwysig gweithredu'n rhagweithiol a meithrin perthynas â theuluoedd â lefelau uchel o angen ac mae hyn wedi bod yn hollbwysig i gael caniatâd ac arwyddbostio teuluoedd at y Cydlynnydd Trydydd Sector, er enghraifft. Datblygwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth a chytunwyd arno gan ddarparu *'modd diogel o rannu gwybodaeth yn sensitif'*. Pan welwyd tystiolaeth bod 2 neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod wedi'u cofnodi darparwyd cymorth gan yr Hwb ac o ganlyniad i hyn, ynghyd â gwella prosesau rhannu gwybodaeth o fewn yr Hwb amlasiantaeth, gwellwyd canlyniadau teuluoedd a diogelwch plant, gan osgoi ymyrraeth diogelu.

Dysgu o fodelau pwynt cyswllt sengl eraill: Roedd pwynt cyswllt sengl (Swyddog Gwybodaeth) eisoes wedi'i sefydlu yng Nghyngor Gwirfoddol Sir y Fflint gan gefnogi oedolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, a fu'n gweithio'n dda ac a roddodd fynediad at ystod eang o gymorth a gweithgareddau o gyfleoedd chwarae lleol i gymorth gyda chilirio llanast, a defnyddiwyd hyn fel model i'w ddatblygu o fewn yr Hwb.

Deall rôl a chylch gwaith y trydydd sector: Nid oedd rhai teuluoedd yn ymwybodol eu bod wedi'u hatgyfeirio at yr Hwb. Tybiodd partneriaid statudol y gallai'r Cydlynnydd Trydydd Sector *'alw'n ddiwahoddiad'* neu anfon pamffled drwy'r post. O ganlyniad roedd potensial o roi'r dioddefwr mewn perygl pe bai'r troseddwr honedig yn codi'r ffôn neu'n gweld y pamffled a oedd yn dweud beth oedd ar gael gan y trydydd sector. O ganlyniad, rhoddwyd gwybod i'r teuluoedd i ddisgwyl galwad gan weithiwr proffesiynol allweddol a oedd eisoes â pheth cysylltiad â'r teulu, megis Ymwelydd Iechyd, bydwraig neu'r Heddlu ac yn fwy derbyniol i deuluoedd.

- **Angen bod yn hyblyg:** Tra mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn creu cyfleoedd i drawsnewid y ffyrdd y gallai gwasanaethau gael eu darparu yn y dyfodol, mae diffyg cyfle i hybu a phrofi ffyrdd newydd o weithio er gwaethaf diddordeb gwirioneddol mewn creu newid. Mae'r Hwb yn enghraifft o ble mae awdurdod lleol wedi cydnabod a deall bod angen newid a darparu ymateb gwell i deuluoedd agored i niwed yn y sir. Mae'r Hwb yn esblygu; yr her allweddol yw symud at ymateb ymyrraeth gynharach, y mae'r mudiadau trydydd sector yn ddarparwyr hysbys ohono, yn hytrach na delio gyda thrafferthion teuluol wrth iddynt waethygu fel y gwna'r Cydlynnydd Trydydd Sector.
- **'Codi'r caead':** Cafwyd peth trafferth yn ymgysylltu â rhai teuluoedd a oedd yn ymosodol yn eu hymateb pan gysylltodd y Cydlynnydd Trydydd Sector â nhw a theuluoedd nad oedd arnynt eisiau ymyrraeth statudol gan feddwl y byddai eu plant yn cael eu rhoi mewn gofal.
Roedd hyn yn bennaf oherwydd:
 - Swyddog Heddlu wrth ymateb i ddigwyddiad yn methu ag egluro'r cynnig yn glir.
 - Y teulu mewn cyfnod o argyfwng yn ei chael yn anodd prosesu gwybodaeth.
 - Y teulu ddim yn ymwybodol eu bod wedi'u hatgyfeirio at yr Hwb ac unwaith yr eglurwyd hyn yn amau unrhyw beth gan y Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r teulu yn ystod digwyddiad ddim eisiau i'r Heddlu fod ar eu carreg drws am ddim mwy nag oedd angen.

Bu'r ymweliad dilynol gan Swyddog Heddlu o gymorth i wella dealltwriaeth teuluoedd o'r cynnig. Roedd angen egluro'r cynnig gan i'r Cydlynnydd Trydydd Sector gael ymateb ymosodol wrth ffonio rhai teuluoedd yn ddiwahoddiad. Arweiniodd hyn at ffordd arall o weithio gan gytuno y byddai gweithiwr proffesiynol, a oedd eisoes yn gwybod am y teulu, yn rhoi gwybodaeth am y cymorth amgen ac y byddai'r Cydlynnydd Trydydd Sector yn cysylltu â nhw. Mae hyn, ymhen amser, wedi dechrau gweithio'n dda ac mae teuluoedd yn llai tebygol o ymateb yn negyddol pan fo mudiad arall yn cysylltu â nhw ac yn agor y sgwrs mewn ffordd fwy positif gan drefnu ymweliad â'u cartref.
- **Ymgysylltu ar draws y sectorau:** I ddechrau teimlwyd ei bod yn anodd ymgysylltu ar draws sectorau o safbwynt Heddlu Gogledd Cymru nad oedd yn ymwybodol o'r holl fudiadau trydydd sector a allai gefnogi teuluoedd yn y gymuned. Gwellodd hyn wrth ddatblygu a gweithredu prosesau a daeth y Swyddog Heddlu cyswllt yn allweddol i gyfathrebu gwybodaeth ynglŷn â'r cynnig o gymorth drwy'r Hwb â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.
- **Mynediad at Ymwelwyr lechyd:** Er bod Ymwelwyr lechyd yn gallu defnyddio TG, nid oedd hi bob amser yn hawdd cysylltu ag Ymwelydd lechyd penodol yn yr un ffordd â gweithwyr proffesiynol eraill a oedd wedi'u cydleoli.
- **Cydgynhyrchu:** Teimlwyd bod y ffordd y datblygwyd yr Hwb yn cyd-fynd ag egwyddorion cydgynhyrchu. Serch hynny, ni chynhwyswyd teuluoedd wrth ei ddylunio, ond roedd eu hepgor fel hyn yn ddealladwy oherwydd cymhlethdodau'r teuluoedd a atgyfeirir at yr Hwb. Bwriedir cyfweld â rhai o'r teuluoedd hyn i ddeall eu profiadau a defnyddio hyn i ddylanwadu ar ddatblygiad pellach yr Hwb.
- **Capasiti i ymateb:** Arweiniodd y dull consortia a sefydlwyd ynglŷn â rhianta at ailgomisiynu darparwyr, a atebodd y meini prawf o fod â'r gallu i ymateb i ofynion yr Hwb Cymorth Cynnar. Serch hynny, cafodd rhai mudiadau eu boddi gan atgyfeiriadau gan mai nhw oedd yr unig fudiad mewn sefyllfa dda i gefnogi teuluoedd ag anghenion penodol. Roedd perygl o orddibynnu pan nad oedd ond *'llond llaw o 6/8 mudiad o amgylch y bwrdd... ac amharoddrwydd i gytuno i godi atgyfeiriad oherwydd diffyg capasiti neu pan fo'r atgyfeiriad yn ymddangos yn rhy gymhleth'*. Cafodd rhai achosion a atgyfeiriwyd at y Cydlynnydd Trydydd Sector eu hystyried yn amhriodol gan nad oedd yr un asiantaeth arall eisiau bod yn rhan ohonynt.
- **Cyfleu'r neges:** Mae hi wedi bod yn heriol rhoi gwybod i bob asiantaeth ledled Sir y Fflint ac yn ehangach a oedd mewn cysylltiad â theuluoedd sy'n byw yn y sir eu bod yn gallu gwneud atgyfeiriad yn gynharach. Teimlwyd, er enghraifft, fod ysgolion yn annhebygol o atgyfeirio teulu gan eu bod yn teimlo na fyddai neb yn gwneud dim byd am y peth. Bellach, pe bai ysgolion yn atgyfeirio, gall y Cydlynnydd Trydydd Sector gynnig cymorth yn gynharach.

Yn gyffredinol, mae'r Hwb Cymorth Cynnar wedi bod yn ddylanwadol ar y canlynol:

- Cynnig y dewis o gymorth amgen i deuluoedd agored i niwed nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol neu lle nad oedd cymorth wedi cael ei gynnig o'r blaen, er gwaethaf patrymau'n ailadrodd, ac mae hyn wedi'i werthfawrogi.
- Mae cydleoli timau ac asiantaethau wedi bod yn bwysig i gynorthwyo asiantaethau i rannu gwybodaeth a chyfathrebu â'i gilydd.
- Mae hi wedi bod yn bwysig egluro nad yw'r cynnig o gymorth gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn orfodol a bod y cymorth a gynigir gan y Cydlynnydd Trydydd Sector yn hollol wirfoddol. Gall y teulu ddewis i dderbyn neu wrthod.
- Mae'r berthynas a ffurfiwyd rhwng y Cydlynnydd Trydydd Sector a'r Swyddog Heddlu cyswllt wedi bod yn hanfodol i sefydlu perthynas â theuluoedd. *'Ni fyddai eu llwybrau byth fod wedi croesi o'r blaen ac mae hyn wedi arwain at broses lawer gwell'* wrth ymgysylltu â theuluoedd yn gynnwys sicrhau nad ydynt yn cael galwad gan rywun nad ydynt yn ei adnabod.
- Mae deall cylch gwaith y trydydd sector; sut y gall y sector ymateb a beth sydd y tu hwnt i'w gyfrifoldeb wedi bod yn ganlyniad dysgu pwysig i'r partneriaid statudol. Mae gan y partneriaid statudol ddarlun mwy cynhwysfawr o hyd a lled y cymorth sydd ar gael gan y trydydd sector, tra o'r blaen roedd yna ddiffyg ymwybyddiaeth.
- Mae angen i deuluoedd gael gwybod eu bod wedi'u hatgyfeirio at yr Hwb Cymorth Cynnar ac mae angen i'r cysylltiad cychwynnol sy'n rhoi gwybod iddynt am y cynnig o gymorth gan y Cydlynnydd Trydydd Sector gael ei wneud gan rywun y mae'r teuluoedd yn ei adnabod yn hytrach na chael galwad gan *'ddieithryn llwyr sy'n ffonio'n hollol annisgwyl'* nad yw'n adnabod y teulu.

Diolch i'r bobl ganlynol am rannu o'u profiadau a'u harbenigedd wrth ddatblygu'r astudiaeth achos hon:

George Selvanera (Cyfarwyddwr, George Partnership Ltd)

Y Rhingyll Kerry Smith-Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

David Chisnall (Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf, Cyngor Sir y Fflint)

Jan Owen (cyn Gydlynnydd Trydydd Sector o fewn yr Hwb, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint)

Katie Howard (Cydlynnydd Trydydd Sector (Oedolion), Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint)

Ann Woods (Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint)

Siân Beck (Uwch-arolygydd, Heddlu Gogledd Cymru)

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Sally Rees (WCVA): srees@wcva.org.uk